Cefndir statudol Rhaglen Ffermydd Gwynt yr Ystad Goedwig Genedlaethol.

Yn achos y prosiect hwn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (sy'n gweithredu drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidog) wedi gwneud trefniant gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru dan Adran 41 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ymgymryd â swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 ("Trefniadau Adran 41"). Mae Trefniadau Adran 41 yn cynnwys pŵer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dan Adran 39(2) o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i "waredu, at unrhyw ddiben, dir a gafwyd gan [Cynulliad Cenedlaethol Cymru] dan yr adran hon." Mae'r pŵer hwn yn cael ei ddirprwyo i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer, ymhlith dibenion eraill, datblygu cyfleusterau egni adnewyddadwy ar yr ystad goedwig genedlaethol.

Mae telerau Trefniadau Adran 41 yn nodi bod angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Gweinidog ar gyfer gwaredu at ddibenion egni adnewyddadwy. Bydd y gwarediadau a awdurdodir yn cael eu gwneud yn enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a fydd yn gweithredu'r cytundebau opsiwn a'r prydlesi.

O dan Drefniadau Adran 41, mae'n rhaid i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gymryd i ystyriaeth ddyletswydd y Gweinidog (ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru) dan Adran 8A o Ddeddf Coedwigaeth 1967, sy'n gofyn iddo/iddi, wrth gyflawni ei swyddogaethau coedwigaeth, "ystyried y budd cenedlaethol o ran cynnal ac ehangu adnoddau coedwigaeth ... Cymru...". Mae hyn yn golygu, mewn perthynas â'r prosiect hwn, y dylid, wrth ddatblygu ffermydd gwynt, leihau i'r eithaf golli gorchudd coed yn barhaol lle mae'r coed presennol yn darparu manteision cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol gweladwy.